

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi gwybodaeth a chynghor i Aelodau'r Cynulliad a'u staff am faterion y mae'r Cynulliad a'i bwyllgorau'n eu hystyried ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cynghor a geir yn y ddogfen hon yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd parti.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

Nodyn Cynghor Cyfreithiol

PEDWERYDD MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL – Y BIL MENTER A DIWYGIO RHEOLEIDDIO –

Cefndir

1. Ar 11 Ionawr 2013, cyflwynodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yr hysbysiad a ganlyn ynghylch cynnig – “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ynghylch y gofyniad bod cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yn darparu data cwsmeriaid i'r graddau y mae hyn yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

2. Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (“y Memorandwm”) ar 15 Ionawr 2013, a chytunodd i beidio â chyfeirio'r Memorandwm at bwyllgor i'w ystyried oherwydd prinder amser ac oherwydd y bydd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 29 Ionawr 2013. Diben y nodyn hwn yw hwyluso'r drafodaeth honno.

3. Dyma'r pedwerydd Memorandwm sy'n ymwneud â'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio. Cafodd Memorandwm blaenorol ei osod ar 12 Mehefin 2012 mewn perthynas â'r diwydiant dŵr ac un arall ar 10 Gorffennaf mewn perthynas â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd. Gosodwyd trydydd Memorandwm ar 5 Hydref 2012 mewn cysylltiad â darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio

Rheoleiddio sy'n ymwneud â phŵer i Weinidogion Cymru gynnwys cymalau machlud ac adolygu mewn is-ddeddfwriaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'r materion yr ymdriniwyd â hwy yn y Memoranda hynny wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad a ganlyn.

Y Bil

4. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mai 2012. Roedd y Bil yn destun Ail Ddarlleniad ar 11 Mehefin 2012 cyn symud i'r Cyfnod Pwyllgor. Daeth ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin i ben ar 17 Hydref, ac mae bellach yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r Bil yn cynnwys chwe Rhan, y mae'r Memorandwm ond yn ymwneud â thri chymal nad ydynt wedi eu hystyried hyd yn hyn. Maent yn ymddangos fel gwelliannau 58C, 58D a 58E yn y rhestr ddiweddaraf o welliannau wedi'u didoli, ac maent wedi'u cynnwys fel atodiad i'r nodyn hwn er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd. Gwelliannau'r Llywodraeth yw'r rhain yn enw'r Arglwydd Younger o Leckie, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Llefarydd y Llywodraeth ar ran yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

5. Byddai gwahanol Rannau o'r Bil yn newid y gyfraith mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol rannau o'r DU. Mewn perthynas â Chymru, mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi-

"Westminster will not normally legislate with regard to devolved matters falling within the legislative competence of the National Assembly for Wales. Certain of the provisions of the Bill extending to Wales fall within the legislative competence of National Assembly for Wales. The consent of the National Assembly for Wales is therefore being sought for them through a legislative consent motion."

6. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, prif ddiben y Bil yw annog twf hirdymor a symleiddio rheoliadau yn gyffredinol.

7. Gan fod y cymalau hyn yn agored i welliannau nad ydynt wedi eu trafod hyd yn hyn, nid oes esboniad o'u diben ar gael ar wefan y Senedd. Byddai'r esboniad fel arfer yn cael ei roi gan gynigydd y gwelliant yn y ddadl. Felly nid oes gwybodaeth ar gael yn ychwanegol at yr hyn sydd yn y Memorandwm.

8. Mae'r cymalau yn gymalau galluogi oherwydd maent yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i 'berson a reoleiddir' (busnes, yn ymarferol) i ddarparu data cwsmer i'r cwsmer hwnnw neu i berson a awdurdoddir gan y cwsmer hwnnw, ar gais. 'Pobl a reoleiddir' yw cyflenwyr nwy, trydan, gwasanaethau ffôn symudol a rhai gwasanaethau ariannol, ynghyd ag unrhyw ddarparwr gwasanaeth arall a fanylir yn y rheoliadau. Gallai'r rhan olaf gynnwys, er enghraifft, darparwyr gwasanaethau ffôn tir. Mae'r gwelliannau yn nodi materion y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried, a diffinio'r termau a ddefnyddir ynddynt. Maent hefyd yn darparu rhagor o fanylion am faterion i'w cynnwys yn y rheoliadau, yn enwedig mewn cysylltiad â gorfodi gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu berson arall a fanylir yn y rheoliadau.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

9. Nid yw'r darpariaethau y mae'r Memorandwm yn cyfeirio atynt yn dod yn daclus o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Memorandwm yn nodi 'Datblygu economaidd' fel cymhwysedd deddfwriaethol perthnasol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau penodol mewn cysylltiad â gwasanaethau ariannol, cyflenwi trydan, olew a nwy a teleathrebu, sy'n ymddangos fel y prif feysydd a dargedir gan y gwelliannau hyn. Yn ogystal, mae'r rhestr o ddeddfiadau na all y Cynulliad eu diwygio yn gyffredinol yn cynnwys Deddf Diogelu Data 1998, y mae'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â hi, fel y gellir gweld gan y cyfeiriadau at y Comisiynydd Gwybodaeth. Felly, ni allai'r Cynulliad wneud deddfwriaeth debyg mewn cysylltiad â Chymru.

Y Memorandwm Cydsyniad

10. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi mai'r cymal a fewnosodir ar ôl cymal 73 yw'r un sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac sydd angen cydsyniad deddfwriaethol. Mae'n gymal sydd mewn gwirionedd yn rhyngddibynnol ar y ddau gymal a ganlyn, fel y gellir gweld yn yr Atodiad i'r nodyn hwn. Fodd bynnag, mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i eirio mewn termau digon eang fel ei fod yn gymwys i'r tri chymal a gynigir.

11. Fel y mae paragraff 2 o'r Memorandwm yn egluro, y prawf a fanylir yn Rheol Sefydlog 29.1 yw a yw'r Bil yn gwneud darpariaeth 'at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad'. Felly nid oes angen i'r ddarpariaeth ei hun fod o fewn y cymhwysedd hwnnw, ar yr amod bod diben y ddarpariaeth o fewn y cymhwysedd hwnnw.

12. Roedd Memorandwm cynharach mewn cysylltiad â'r Bil hwn yn ymwneud â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd. Er bod bancio yn amlwg y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, roedd y ffaith bod ganddo amcanion amgylcheddol yn golygu ei fod yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn ymwneud â'r amgylchedd a arweiniodd at gymeradwyo'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwnnw.

13. Ar yr achlysur hwnnw, roedd y Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn egluro diben y darpariaethau, a gryfhaodd y ddadl eu bod at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Y tro hwn, cawn ein cyflwyno â gwelliannau nad ydynt wedi'u trafod hyd yn hyn ac felly nid oes eglurhad ar gael yn ychwanegol i'r hyn sydd yn y Memorandwm. Mae hynny yn egluro ym mharagraff 12 "The strategy aims to give consumers more power. A key project in the strategy is 'midata' which aims to give consumers more control and access to their personal data so they might secure better deals for themselves individually and collectively." Er bod 'hyrwyddo busnes a chystadleurwydd' o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae 'diogelwch defnyddwyr' wedi'i eithrio'n benodol.

Casgliad

14. Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru, ond nid yw'n glir a yw'r darpariaethau hyn at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn sicr ni fyddai'r Bil yn cael effaith negyddol arno.

15. Felly, efallai nad oedd cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gwbl angenrheidiol yn achos y cymalau arfaethedig hyn, ond pan fydd amheuaeth mae'n sicr yn well ystyried materion nad ydynt yn angenrheidiol yn hytrach na methu ag ystyried cydsyniad deddfwriaethol pan fyddai hynny wedi bod yn briodol.

16. Yn ôl Rheol Sefydlog 29.7, "Rhaid i gynnis cydsyniad deddfwriaethol sydd wedi'i gyflwyno gael ei ystyried gan y Cynulliad." Felly, mae'n briodol bod y Cynulliad yn trafod y cynnig sy'n ymwneud â'r Memorandwm hwn.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ionawr 2013

Atodiad

Text of proposed amendments

After Clause 73

VISCOUNT YOUNGER OF LECKIE [proposer]

[Amendment]58C

Insert the following new Clause—

“Supply of customer data

(1) The Secretary of State may by regulations require a regulated person to provide customer data—

(a) to a customer, at the customer’s request;

(b) to a person who is authorised by a customer to receive the data, at the customer’s request or, if the regulations so provide, at the authorised person’s request.

(2) “Regulated person” means—

(a) a person who, in the course of a business, supplies gas or electricity to any premises;

(b) a person who, in the course of a business, provides a mobile phone service;

(c) a person who, in the course of a business, provides financial services consisting of the provision of current account or credit card facilities;

(d) any other person who, in the course of a business, supplies or provides goods or services of a description specified in the regulations.

(3) “Customer data” means information which—

(a) is held in electronic form by or on behalf of the regulated person, and

(b) relates to transactions between the regulated person and the customer.

(4) Regulations under subsection (1) may make provision as to the form in which customer data is to be provided and when it is to be provided (and any such provision may differ depending on the form in which a request for the data is made).

(5) Regulations under subsection (1)—

(a) may authorise the making of charges by a regulated person for complying with requests for customer data, and

(b) if they do so, must provide that the amount of any such charge—

(i) is to be determined by the regulated person, but

(ii) may not exceed the cost to that person of complying with the request.

(6) Regulations under subsection (1)(b) may provide that the requirement applies only if the authorised person satisfies any conditions specified in the regulations.

(7) In deciding whether to specify a description of goods or services for the purposes of subsection (2)(d), the Secretary of State must (among other things) have regard to the following—

(a) the typical duration of the period during which transactions between suppliers or providers of the goods or services and their customers take place;

(b) the typical volume and frequency of the transactions;

(c) the typical significance for customers of the costs incurred by them through the transactions;

(d) the effect that specifying the goods or services might have on the ability of customers to make an informed choice about which supplier or provider of the goods or services, or which particular goods or services, to use;

(e) the effect that specifying the goods or services might have on competition between suppliers or providers of the goods or services.

(8) The power to make regulations under this section may be exercised—

(a) so as to make provision generally, only in relation to particular descriptions of regulated persons, customers or customer data or only in relation to England, Wales, Scotland or Northern Ireland;

(b) so as to make different provision for different descriptions of regulated persons, customers or customer data;

(c) so as to make different provision in relation to England, Wales, Scotland and Northern Ireland;

(d) so as to provide for exceptions or exemptions from any requirement imposed by the regulations, including doing so by reference to the costs to the regulated person of complying with the requirement (whether generally or in particular cases).

(9) For the purposes of this section, a person (“C”) is a customer of another person (“R”) if—

(a) C has at any time, including a time before the commencement of this section, purchased (whether for the use of C or another person) goods or services supplied or provided by R or received such goods or services free of charge, and

(b) the purchase or receipt occurred—

(i) otherwise than in the course of a business, or

(ii) in the course of a business of a description specified in the regulations.

(10) In this section, “mobile phone service” means an electronic communications service which is provided wholly or mainly so as to be available to members of the public for the purpose of communicating with others, or accessing data, by mobile phone.”

[Amendment] 58D

Insert the following new Clause—

“Supply of customer data: enforcement

(1) Regulations may make provision for the enforcement of regulations under section (Supply of customer data) (“customer data regulations”) by the Information Commissioner or any other person specified in the regulations (and, in this section, “enforcer” means a person on whom functions of enforcement are conferred by the regulations).

(2) The provision that may be made under subsection (1) includes provision—

(a) for applications for orders requiring compliance with the customer data regulations to be made by an enforcer to a court or tribunal;

(b) for notices requiring compliance with the customer data regulations to be issued by an enforcer and for the enforcement of such notices (including provision for their enforcement as if they were orders of a court or tribunal).

(3) The provision that may be made under subsection (1) also includes provision—

(a) as to the powers of an enforcer for the purposes of investigating whether there has been, or is likely to be, a breach of the customer data regulations or of orders or notices of a kind mentioned in subsection (2)(a) or (b) (which may include powers to require the provision of information and powers of entry, search, inspection and seizure);

(b) for the enforcement of requirements imposed by an enforcer in the exercise of such powers (which may include provision comparable to any provision that is, or could be, included in the regulations for the purposes of enforcing the customer data regulations).

(4) Regulations under subsection (1) may—

(a) require an enforcer (if not the Information Commissioner) to inform the Information Commissioner if the enforcer intends to exercise functions under the regulations in a particular case;

(b) provide for functions under the regulations to be exercisable by more than one enforcer (whether concurrently or jointly);

(c) where such functions are exercisable concurrently by more than one enforcer—

(i) designate one of the enforcers as the lead enforcer;

(ii) require the other enforcers to consult the lead enforcer before exercising the functions in a particular case;

(iii) authorise the lead enforcer to give directions as to which of the enforcers is to exercise the functions in a particular case.

(5) Regulations may make provision for applications for orders requiring compliance with the customer data regulations to be made to a court or tribunal by a customer who has made a request under those regulations or in respect of whom such a request has been made.

(6) Subsection (8)(a) to (c) of section (Supply of customer data) applies for the purposes of this section as it applies for the purposes of that section.

(7) The Secretary of State may make payments out of money provided by Parliament to an enforcer.

(8) In this section, “customer” and “regulated person” have the same meaning as in section (Supply of customer data).”

[Amendment] 58E

Insert the following new Clause—

“Supply of customer data: supplemental

(1) The power to make regulations under section (Supply of customer data) or (Supply of customer data: enforcement) includes—

(a) power to make incidental, supplementary, consequential, transitional or saving provision;

(b) power to provide for a person to exercise a discretion in a matter.

(2) Regulations under either of those sections must be made by statutory instrument.

(3) A statutory instrument containing regulations which consist of or include provision made by virtue of section (Supply of customer data)(2)(d) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, each House of Parliament.

(4) A statutory instrument containing any other regulations under section (Supply of customer data) or section (Supply of customer data: enforcement) is subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament.”